

Y Streic Fawr

Cyfeirir at y streic a ddigwyddodd yn Chwarel y Penrhyn ar droad yr ugeinfed ganrif fel y Streic Fawr. Gwnaeth nifer o ffactorau cyfunedig y streic yn un o'r anghydfodau hiraf yn hanes Diwydiannol Prydain. Parhaodd y streic am dair blynedd. Yn 1886, daeth yr ystâd dan reolaeth George Sholto Gordon Douglas Pennant ac roedd yn awyddus i

gyflwyno newidiadau i'r hyn a ystyriodd fel arferion gweithio hen ffasiwn yn y chwarel. Ar yr un pryd fwy neu lai, roedd y dynion newydd yn yr Undeb yn credu bod angen dull cadarn a milwriaethus. Roedd hi'n gyfnod o newid yn Sir Gaernarfon – yn 1868 rai blynyddoedd yn ddiweddarach trechwyd George Pennant yn yr etholiadau seneddol ar



Streicwyr, tua 1901



gyfer sedd Sir Gaernarfon gan fab chwarelwr o Fethesda, T. L. D. Jones Parry, sef Rhyddfrydwr.

Roedd yna hefyd rwystr iaith yn bodoli a oedd yn gwahanu'r ddwy ochr. Honnir bod gan y perchnogion a'r rheolwyr Saesneg agwedd drefedigaethol a'u bod yn edrych i lawr ar y chwarelwyr oedd yn siarad Cymraeg. I goroni'r cyfan, ymddengys bod yr Arglwydd Penrhyn wedi gwneud dewis gwael wrth benodi

Emilius Alexander Young, cyfaill personol a chyn-gyfrifydd y chwarel, fel rheolwr newydd y chwarel. Yn ei ymgyrch i gynyddu elw ac effeithlonrwydd, bu iddo wahardd chwarelwyr ffyddlon. Yn ôl y sôn, diswyddwyd dynion da ganddo a chafodd wared ar hen arferion. Cyflwynodd gontractwyr allanol ac 'arolygwyr diogelwch' a oedd yn cael eu hystyried fel ysbiwyr y rheolwyr. Mewn llythyr a ysgrifennwyd yn 1900, dywedodd bod 'y Cymry mor anwybodus a phlentynnaidd fel nad oes posib dadlau gyda hwy'.

Ym mis Hydref 1900, cafwyd reiat yn un o fonciau'r chwarel. Cafodd 26 o ddynion eu herlyn ac fe'u cynrychiolwyd gan Lloyd George yn ystod yr achosion llys. Pan ddychwelodd y dynion hyn i'r chwarel ar ôl yr achosion llys, gadawodd y gweithlu cyfan y chwarel ac aethant ar streic. Arweiniodd y cynnwrf at alw milwyr i mewn ac arestio pobl. Cafodd teuluoedd eu taflu o stadau ym mherchnogaeth y Penrhyn. Yn 1903, pleidleisiwyd i ddod â'r streic i ben o fwyafrif bychan a dychwelodd y dynion i'r

gwaith. Bu'r streic yn graith ar y gymuned gan yr allfudodd cannoedd o ddynion a symudodd eraill i byllau glo De Cymru.



Rhybuddion gan y ddau ochr adeg y Streic Fawr

TAITH Y LLECHEN

Dilynwch Daith y Llechen ar hyd llwybr Lôn Las Ogwen lle ceir amryw o baneli gwybodaeth sy'n adrodd stori unigryw llechi Ogwen, Chwarel y Penrhyn a'r bobl fu'n rhan o'r diwydiant llechi.